**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 25 Medi 2012 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Andy Jeffrey (Outward Bound), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llyr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Megan Reynolds (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Roger Lawson-Mole (Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

(a) Cynigiwyd enw'r Cyng. David Richardson i gymryd y Gadair am y flwyddyn 2012/13 ond fe wrthododd gan ofyn i'r isod gael ei nodi yn y cofnodion:

"Yn ystod y tair blynedd diwethaf fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn rwyf bob amser wedi ceisio bod yn Gadeirydd rhagweithiol, er budd yr Harbwr ac Aberdyfi. Er hynny, rwyf wedi dod i sylweddoli fwy fwy mai nid dyma beth mae'r Swyddog Morwrol ei eisiau. Yn ystod y 6 mis diwethaf rwyf wedi anfon negeseuon e-bost ato ar faterion roeddwn yn credu oedd yn ddifrifol – rwyf yn dal i aros am ateb. Rwyf felly wedi dod i'r casgliad nad yw'r Swyddog Morwrol o'r farn fod gwerth i dros 50 mlynedd o brofiad ar yr afon. Rwyf felly yn gwrthod yr enwebiad.

Rwyf yn dal at fy natganiad, a ddywedais fis Hydref diwethaf yng nghyfarfod Harbwr Abermaw, sef nad yw'r Adran Forwrol yn gwybod beth mae llongwyr a hwylwyr ei eisiau."

(b) Nodwyd gan Aelod siom nad oedd unrhyw gyfeiriad i'r Arweinydd Portffolio ar y rhestr Aelodaeth a theimlwyd y dylid cael cyfansoddiad i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gyda threfn mewn lle i gyfeirio'r cofnodion i sylw Pwyllgor penodol fel bo modd gweithredu'n rhagweithiol er budd Aberdyfi a Thywyn. Nodwyd ymhellach bwysigrwydd bod Aberdyfi yn cael sylw haeddiannol a theilwng o gofio bod gweithgareddau'r Harbwr yn dod ag incwm i'r pentref er budd yr economi lleol.

(c) Ategodd Aelod arall y pryder uchod a'i fod wedi awgrymu yn y gorffennol i'r cofnodion gael eu cyflwyno i Bwyllgor Morwrol ond ni fu hyn i ddigwydd. Nid yw'r drefn bresennol yn gweithio ac y dylid darparu gwell trefniadau ynglŷn â chofnodion a chyfathrebu ar gyfer yr holl Harbyrau.

(ch) Derbyniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y sylwadau gan nodi y byddai'n ymchwilio i'r honiadau yn erbyn yr Adran Forwrol a Pharciau Gwledig. Nodwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ynglŷn â rôl y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr (Aberdyfi,

Abermaw, Porthmadog a Phwllheli) oherwydd ymddengys bod trefniadau'r 4 Pwyllgor yn wahanol ac un ohonynt yn Bwyllgor statudol i Ddeddf. Cydnabuwyd y byddai'n fuddiol i gysoni'r Pwyllgorau Ymgynghorol hyn ar draws y Sir ynghyd a sefydlu beth ydi rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Harbwr. O safbwynt cyfeirio'r cofnodion i Bwyllgor penodol canolog, esboniwyd bod trefn llywodraethu'r Cyngor wedi newid ers yr etholiad diwethaf ym mis Mai eleni a bod y Cyngor yn gweithredu ar ffurf Cabinet. Byddai'n rhaid ystyried ymhellach gyda'r Aelod Cabinet ar drefn gweithredu'r cofnodion.

(d) Oherwydd bod Mr Richardson wedi troi'r cynnig i lawr i fod yn Gadeirydd, cynigwyd enw'r Cynghorydd Dewi Owen ond nodwyd gan y Swyddog Cefnogi Aelodau, yn dilyn cyfarwyddyd gan gyfreithiwr, nad oedd yn bosibl i Aelod fod yn Gadeirydd ar ddau Bwyllgor.

**Penderfynwyd: (a) Ethol y Cynghorydd Dewi Owen i'r Gadair am y cyfarfod hwn hyd nes derbynnir eglurhad pellach ynglŷn â rheolau yn ymwneud ag Aelodau yn gwasanaethu fel Cadeirydd ar fwy nag un Pwyllgor.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned drafod ymhellach gyda swyddogion perthnasol ynghylch sefydlu cyfansoddiad a chylch gorchwyl i'r Pwyllgorau Ymgynghorol.**

**Nododd y Cadeirydd, tra'n derbyn polisi Iaith y Cyngor, roedd am gynnal y trafodion yn Saesneg ond bod rhydd i unrhyw un oedd yn bresennol draddodi yn yr iaith sydd fwyaf cyfforddus iddynt.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol Mr David Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2012-13.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2012.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Diolchwyd i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones am sicrhau fod Seremoni flynyddol lansio Baner Las Cymru yn cael ei gynnal yn Nhywyn eleni.

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

Cyn cyflwyno ei adroddiad, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn teimlo'n rhwystredig ac anghyfforddus iawn i gyflwyno adroddiad yn dilyn sylwadau Mr Richardson o wybod faint o waith sydd wedi mynd i mewn i'r arfordir a Pharciau Gwledig gyda chyn lleied o adnoddau a chyllideb.

Yr un pryd ymddiheurodd am ffurf yr adroddiad gan egluro mai diffyg capasiti yn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig oedd yn gyfrifol am hyn a'r prif reswm ydoedd nad oedd cymorth gweinyddol ar gael i'r gwasanaeth tan ganol mis Tachwedd.

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(i) **Mordwyo ac Angorfeydd**

(a) Nodwyd y bwriedir cyflwyno adolygiad y Côd Diogelwch Harbwr i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth er trafodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau a threfniadau harbyrau a.y.b. Atgoffwyd Aelodau fod copiau o'r Côd Diogelwch wedi eu cyflwyno i Aelodau rhai blynyddoedd yn ôl bellach ac fe roedd yn amserol bod y Côd Diogelwch yn cael ei ddiweddaru.

(b) O safbwynt y cymhorthion mordwyo, oherwydd mater technegol gyda'r contractwr angorfeydd ac anallu i ddefnyddio contractwyr eraill, nad oedd y gwaith o'u cynnal a chadw a'u hadnewyddu wedi ei gwblhau heblaw am y goleuadau mordwyo. Derbyniwyd nad oedd y cymhorthion o ran cyflwr yn edrych ar eu gorau a bod dipyn o waith i'w gwblhau arnynt. Roedd un o'r bwiau angen ei newid ond nad oedd y capasiti gan y Gwasanaeth i wneud hyn heb gymorth contractwr. Cafodd cwch y Contractwr archwiliad o ran diogelwch ac fe roddwyd embargo arno i'w defnyddio hyd nes roedd yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch a Gwylwyr y Glannau. Fodd bynnag, nodwyd bod y cwch bellach wedi pasio'r prawf ac fe ddisgwylir y tystysgrifau perthnasol. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y cymhorthion wedi aros ar eu safle heblaw'r bwi tymhorol y Port a chydnabuwyd nad oedd y sefyllfa'n dderbyniol.

(c) Derbyniwyd adroddiad yn dilyn archwiliad diweddar gan Dŷ'r Drindod yn nodi bod y bwiau yn dderbyniol ond nad oedd eu cyflwr yn cyrraedd safonau angenrheidiol. Yn sgil hyn felly, edrychir ar adnewyddu 4 o'r cymhorthion dros fisoedd y gaeaf a rhagwelir cost o oddeutu £8 - £10,000 ar gyfer y gwaith hwn. Fe fydd yn rhaid tynnu'r cymhorthion i gyd i'r lan a chadarnhawyd y byddai'r Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi cynllun gwaith manwl ar gyfer hyn. Fodd bynnag, nodwyd bod y goleuadau yn dderbyniol ond cydnabuwyd nad oedd golau Bwi Rhif 3 yn gweithio a golau Bwi 2 ddim ar y safle. Roedd Rhybudd i Forwyr wedi ei gyhoeddi yn tynnu sylw at ddiffygion y goleuadau mordwyo.

(ch) Mewn ymateb, nododd Mr Richardson iddo anfon e-bost at y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar 26 Mehefin, yn tynnu sylw at faterion difrifol yn ymwneud â mordwyo i mewn i'r aber. Barn Mr Richardson oedd fod y marciau mordwyo yn bwysig iawn a bod bwi'r bar yn llai na'r ail fwi Starbord ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i forwyr fordwyo i'r aber yn ddiogel o gyfeiriad y de. Roedd yr ail fwi yn haws ei weld a phe gwneid camgymeriad byddai cychod yn cael eu dryllio yn enwedig os ceid distyll cryf a gwynt nerth 4. Ychwanegodd Mr Richardson y bu'n gweld yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Cynorthwyol - Harbyrau ynglŷn â'i bryderon ac roedd wedi e-bostio'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ond ni wnaed unrhyw beth i ddatrys y mater ond eto ymddengys fod blaenoriaeth wedi ei rhoi i adeiladu ffens o amgylch y storfa bwiau. Datganodd Mr Richardson fod hwn yn fater difrifol a phe byddai trasiedi yn digwydd gallai Cyngor Gwynedd gael ei erlyn.

(d) Dywedodd Mr Andy Jeffrey os byddai morwyr yn mabwysiadu arferion cydnabyddedig a diogel ac yn mordwyo drwy ddefnyddio'r dulliau priodol a chymryd sylw o forwriaeth dda, yna ni ddylent fod mewn unrhyw berygl. Er ei fod yn cytuno â Mr Richardson bod bwi'r Tafod yn fwy gweladwy, byddai morwyr yn annoeth os byddent yn penderfynu torri cornel a mynd i mewn i'r aber o gyfeiriad gwahanol. Roedd yn rhaid cael rhywfaint o ddyletswydd gofal ar forwyr o ran bod ganddynt gynllun taith sy'n fandadol ond dim ond ychydig o forwyr hamdden oedd yn cadw at y gofyn hwn.

(dd) Nododd Mr Bracewell ei fod yn gweld y ddwy ochr uchod ac o'i brofiad o fod allan mewn niwl ar y foryd nad ydyw'n bosibl o hyd gweld y bwi allanol a'r bwi'r Bar yn y don. Yn ymarferol tueddiad yw hwylio tuag at fwi'r Bar. Y mwyaf gellir gwneud i helpu morwyr yn hyn o beth y gorau.

(e) gofynnwyd a oedd gan y Gwasanaeth Morwrol unrhyw fodd o roi cosb i forwyr os nad oedd ganddynt gynllun taith o ystyried ei fod yn orfodol.

(f) Diolchodd y swyddog y Gwasanaeth Morwrol am y sylwadau uchod ac ymatebwyd fel a ganlyn:

- Nad oedd unrhyw ganllawiau statudol ynglŷn â maint y bwiau ond sicrhawyd eu bod ar eu lleoliadau cywir gyda goleuadau arnynt
- Bod bwi'r Bar yn un pwrpasol ar gyfer dyfnder bas er mwyn cymryd y llanw. Roedd bwi rhif 2 wedi dod i'r lan mewn tywydd garw ble bu i'r bwi gael ei ddinistrio gan y môr.
- Bod ychydig o gychod ymwelwyr yn dod i mewn drwy groesi'r draethell ond rhan amlaf maent yn cysylltu gyda'r Swyddfa Harbwr ar ffurf ffonau symudol neu don radio i gael cyfarwyddiadau ar sut i hwylio i mewn i'r Harbwr.
- Cydnabuwyd bod cynllun taith yn allweddol i forwyr ond yn anffodus mae'r is-ddeddfau yn gyfyngedig iawn ar be all y Gwasanaeth Morwrol reoli a'r tueddiad ydyw bod pobl yn fentrus heb ystyried goblygiadau a pheryglon
- Bod y ffens o amgylch storfa'r bwiau wedi ei chodi yn dilyn cyfarwyddyd gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a hyn yn dilyn damwain ble anafwyd aelod staff.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig sicrhau y cwblheir y gwaith cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo erbyn y tymor nesaf.**

**(ii) Ystadegau Morwrol**

(a) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol at yr atodiadau oedd ynghlwm i'r rhaglen yn nodi cymariaethau o gychod, ystadegau angorfeydd a chychod pŵer a chychod hwylio. Nodwyd bod sefyllfa heriol yn wynebu'r Harbwr i gyrraedd targedau incwm er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gorwariant yn y gyllideb.

(b) Nododd Mr Richardson os yw'r Cyngor yn codi'r prisiau y tebygolrwydd ydoedd y byddai nifer llai o gychod yn yr harbwr. Ymddengys bod Hafan Pwllheli yn ddrytach nag unrhyw Harbwr arall ac nad oedd yn synnu bod lleihad yn y nifer o gychod yno. Nododd Mr Richardson y dylai'r Cyngor ystyried codi ffi cwch ymwelwyr fesul medr ac nid fesul noson ymweld gan byddai hyn yn cynyddu incwm.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Cyllidebau**

Adroddodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cyflwyno'r cyllidebau terfynol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth ond fe nodwyd nad oedd yr Harbwr wedi cyrraedd ei darged incwm hyd yma. Atgoffwyd Aelodau o'r angen i gynnal a chadw sawl elfen o fewn yr Harbwr. Ar hyn o bryd oddeutu £20,000 sydd wedi ei gasglu mewn incwm yn erbyn targed £42,000. Roedd gwariant sylweddol wedi ac yn cael ei wireddu yn Aberdyfi ac fe restrwyd rhai o engreifftiau isod:

| | |
|---|---|
| £1,000 | Pryniant Caban oherwydd ail leoli safle gwaith |
| £3,000 | Codi ffens diogelwch |
| £1,000 | Clirio tywod |
| £3,000 | Clirio tywod ac ysbwriel o amgylch y compownd |
| £800 | Polion flag |

Nodwyd pwysigrwydd i ystyried cynnydd mewn ffioedd a thaliadau oherwydd y bwlch a wyneba'r Gwasanaeth bob blwyddyn ac felly byddai'n rhaid ystyried rhyw fath o gynnydd ar gyfer flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd codir £5.00 y noson ar gychod ymwelwyr i Aberdyfi a £6.00 yn Hafan Pwllheli.

Nododd Aelod na fyddai hyn yn cyfateb i gostau'r cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo ond bod denu ymwelwyr i Aberdyfi yn caniatáu gwariant cudd yn y siopau a'r economi leol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Digwyddiadau**

(a) Hyderai'r Swyddog Morwrol y gellir gwahodd Swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth i adrodd ar sefyllfa dŵr ymdrochi. Nid oedd yn amserol bod y swyddogion yn gallu presenoli'r cyfarfod hwn oherwydd nad oedd y canlyniadau wedi eu cadarnhau hyd yma. Gellir trafod unrhyw ddatblygiadau sydd ganddynt ac yn sgil hyn ystyried pa fath o geisiadau am wobr y byddai'r Gwasanaeth Morwrol yn gallu ei gyflwyno yn 2013. Roedd perygl bydd nifer fawr o draethau yn colli statws y Faner Las oherwydd ansawdd y dŵr. Penderfynwyd peidio symud y pwynt samplo o Draeth y Fynwent oherwydd mai yn y fan hyn mae rhan fwyaf o'r gweithgareddau.

(b) Awgrymodd Aelod o safbwynt cost ceisiadau am Wobrau Traeth, i'r Gwasanaeth Morwrol gysylltu â'r Cynghorau Cymuned perthnasol i ofyn iddynt gyfrannu fel y gallent ei gynnwys yn y praesept. Roedd £8,000 y flwyddyn am geisiadau gwobrau traeth yn swm enfawr a hyn heb gyllideb ar ei gyfer ond eto cydnabuwyd bod y gwobrau hyn yn bwysig i dwristiaeth a'r economi lleol.

(c) Nododd y Swyddog Morwrol bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo ynglyn â Gorchymyn Cwn newydd gyda Chynghorau Cymuned, a.y.b. Hyderir y gellir cael fwy o swyddogion awdurdodedig megis swyddogion y Gwasanaeth Morwrol i roi dirwyon i berchnogion cwn sy'n baeddu a ddim yn ei glirio.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ar faint o achosion sydd wedi ei weithredu, nododd yr Harbwr Feistr nad oedd wedi dirwyo ond wedi trafod â pherchnogion cwn ynglyn a gwaharddiadau ac 9 gwaith allan o 10 maent wedi cydymffurfio.

Ychwanegodd Aelod y byddai hyn yn ffurf dda o wneud incwm yn enwedig ar y parthau gwaharddedig.
Atgoffwyd Aelodau bod yr Harbwr Feistr wedi derbyn hyfforddiant ac awdurdod i gyflwyno dirwy i unigolion a fu yn gwrthod clirio baw ci. Er bod y pŵer gan swyddogion ers rhai blynyddoedd nid oedd unrhyw ddirwy wedi ei gyflwyno yn ardal Aberdyfi gan aelod staff Morwrol a Pharciau Gwledig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Goddefiadau a Gwelliannau**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol:

- Bod gwaith wedi ei gwblhau ar Gysgodfa Gerddi Penhelyg gyda'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu £1,500 tuag at y costau a gweddill yr arian o gyllideb yr Harbwr. Cydnabyddir bod y llecyn yn bwysig ond yn gost ychwanegol i'r Gwasanaeth.
- Bu'n rhaid codi ffens diogelwch ar fyrder o amgylch y storfa fwiau oherwydd iechyd a diogelwch. Derbyniwyd nifer o gwynion a rhai yn gofyn i'w dynnu lawr ond roedd y ffens yn effeithiol ac yn rhwystr rhag i unigolion ddisgyn dros yr ochr. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd bod llawer o gwynion ynghylch maint y ffens ac nad oedd yn gweddu i'r ardal. Fodd bynnag, deallir bellach bod yn rhaid codi'r ffens yn unol â chyfarwyddyd Awdurdod Iechyd a Diogelwch.
- O safbwynt yr ysgolion a wal y cei, derbyniwyd adroddiad yn 2010 gan gwmni arbenigol ar gyflwr y wal. Ymddengys bod angen archwiliad pellach ac fe ddisgwylir adroddiad yn ystod y mis nesaf. Yn dilyn derbyn yr adroddiad, sicrhawyd y byddir yn ei anfon i'r Cyngor Cymuned ac Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn i ganfod os yw'r sefyllfa wedi gwaethygu. Golyga'r cynllun edrych ar adnewyddu'r wal gyda phosibilrwydd o ddenu 48% o arian cydgyfeiriant a'r Cyngor yn chwilio am 52% sy'n weddill. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y byddir dros y tri mis nesaf yn dechrau trafod a blaenoriaethu prosiectau am y cylch nesaf ac fe adnabyddir Aberdyfi ac yn benodol ardal y cei fel canolbwynt i ystod o weithgareddau. Fel rhan o'r broses fe fyddir yn awyddus i gydweithio gyda mudiadau a chyrff lleol. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd bod 100% o gefnogaeth yn lleol i'r uchod ac yn falch y byddir yn symud ymlaen o ystyried yr holl waith a gwblhawyd gan Mr Bracewell a'i gyfeillion yn y prosiect. Ychwanegwyd hefyd i gadw mewn cysylltiad â'r Outward Bound gan ei fod yn adnodd pwysig iawn iddynt yn eu gweithgareddau hwythau.
- Bwriedir cynnal archwiliad o Bont Ynys Picnic ac fe fydd rhaid rhaglennu arian ar ei gyfer.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(v) Diogelwch Offer Morol**

Adroddodd y Swyddog Morwrol bod yr Heddlu yn awyddus i gylchredeg y ffurflen Cofrestru Gwarchod Morol (a oedd ynghlwm i'r rhaglen) yn sgil llawer iawn o ladrata ar yr arfordir. Apeliwyd ar Aelodau i ddosbarthu'r ffurflen rhwng mudiadau / cyrff maent yn cynrychioli a'i hannog i gwblhau'r ffurflen. Addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n anfon manylion E-bost i Aelodau ynglyn â phwynt cyswllt a'r amserlen.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol anfon manylion E-bost i'r Aelodau ynglyn â phwynt cyswllt a'r amserlen i gwblhau'r ffurflen.**

**(vi) Staff Harbwr**

Penodwyd Mr Wil Stockford yn Gymhorthydd Harbwr Aberdyfi o 1af fis Ebrill hyd 30 Medi 2012. Mawr obeithir y gellir ei ail-benodi eto flwyddyn nesaf. O safbwynt staffio yn ystod y gaeaf, bydd gofyn i Harbwr Feistr Abermaw gynorthwyo yn Aberdyfi ynghyd â staff o Borthmadog. Yn yr un modd bydd disgwyl i Harbwr Feistr Aberdyfi gynorthwyo gyda gwaith harbwr yn Abermaw. Pwysleisiwyd y bydd y rhaglen cynnal a chadw yn rhan allweddol o raglen waith yr Harbwr Feistr.

Nodwyd bod Mr Stockford yn swyddog penigamp ac yn ddibynadwy ar y dŵr a'r lan.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

(a) Cynnydd mewn gosod angorfeydd i'r gorllewin a'r llechfeddiant yn ardal draddodiadol hwylio o flaen yr Outward Bound a Chlwb Hwylio Dyfi. Mae hyn mewn ymateb i gonsyrn cyffredinol o'r posibilrwydd i gaethiwo yn enwedig yn dilyn dau ddigwyddiad yr haf hwn lle bu "Toppers" wedi eu caethiwo o dan gwch y contractwr angorfeydd. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau o fewn trwch blewyn.

(b) Safle'r angorfeydd ar gyfer Gwanwyn nesaf mewn cysylltiad â'r ras dingi

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddir yn gofyn i'r Harbwr Feistr a Swyddog Morwrol Harbyrau ddarparu cynllun yn dangos lleoliadau angorfeydd ar gyfer 2013 a bod y cynllun yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2013. Yn sicr, roedd lle i gwtogi a symud angorfeydd i leoliadau eraill mewn bylchau i fyny'r foryd. Yn wyneb y ffaith bod Aelodau wedi dwyn yr uchod i sylw Swyddfa'r Harbwr Feistr awgrymodd y Swyddog Morwrol y byddir yn trafod gyda'r swyddogion i greu taflen benodol fel bo adroddiad yn cael ei anfon iddo yntau ym Mhwllheli er mwyn nodi unrhyw ddigwyddiad cyffelyb i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr ddarparu cynllun yn dangos lleoliadau angorfeydd ar gyfer 2013 i hwyluso trefniadau'r ras dingi ac i sicrhau unrhyw ddigwyddiadau peryglus.**

(c) Dirywiad yn y tarmac yn ardal y cei

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol y rhagwelai ddirywiad yn y tarmac ac eto roedd y mater hwn yn un fyddai'n rhaid blaenoriaethu yn ddibynnol ar gyllid. Byddai'n ysgrifennu at ddefnyddwyr y llecyn megis yr Outward Bound, Clwb Rhwyfo, RNLI, i ofyn am gyfraniad tuag at y gost o'i ail-wynebu.

Nododd Aelod yn ychwanegol, bod trafodaethau cychwynnol i ystyried ymhen 2/3 blynedd i adnewyddu cyfleusterau'r bad achub ac y byddir yn ymgynghori gyda gwahanol fudiadau yn yr ardal. Yn sgil hyn, ni fyddai yn ddoeth adnewyddu'r arwyneb pe byddai yn fwriad gan yr RNLI i adeiladu ar y tir yn y dyfodol agos.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol drefnu i ysgrifennu at y gwahanol fudiadau a nodwyd i ofyn am gyfraniad at y costau i ail-wynebu'r tarmac yn ardal y cei ac i flaenoriaethu'r gwaith.**

(ch) Pydredd y concrid ar y llithrfa ac amlygiad rhodenni rhydlyd yn y concrid dur (roedd hyn yn wael ar ddechrau'r tymor a bu staff yr Harbwr yn ymdrin â'r mater).

Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol y byddir yn clirio'r llithrfa ac yn ymwybodol o'r dirywiad uchod ond eto yn fater y byddai'n rhaid blaenoriaethu yn ddibynnol ar gyllid.

Awgrymwyd mai trafnidiaeth oedd yn gyfrifol am y difrod yn enwedig ar y rhan isaf o'r llithrfa. Fodd bynnag, anghytunai Aelod ac roedd o'r farn mai erydiad y blaendraeth ac effaith y môr sy'n gyfrifol a'r adeiladwaith gwael.

Mynegodd Aelod bwysigrwydd i ymdrin â'r mater hwn gan fod y rhodenni yn finiog ac oddeutu 6 modfedd yn enwedig o safbwynt iechyd a diogelwch i'r cyhoedd. Dylai'r mater fod ar frig y rhestr blaenoriaeth yn wyneb y ffaith bod llawer iawn o blant yn defnyddio'r ardal hon.

Pwysleisiwyd gan y swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod archwilio safleoedd cyffelyb yn rhan allweddol o waith swyddogion a bod yn angenrheidiol gweithredu ar unwaith pe byddai angen cwblhau unrhyw waith.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol roddi ystyriaeth i'r mater uchod ymhellach.**

(d) Storfa'r Dingis, cychod rhwyfo, canŵod, ôl-gerbydau storio, a.y.b.

Mynegodd Aelod bod cyflwr y storfa uchod wedi mynd allan o reolaeth yn llwyr ac oni ellir symud y cychod rhwyfo i'r compownd a / neu godi tâl ar y perchnogion i'w storio yno.

Mewn ymateb, nododd yr Harbwr Feistr nad oedd lle addas diogel i'w cadw. Ar hyn o bryd maent yn ddiogel ar y sustem storfa gyda chadwyn.

Nododd y Swyddog Morwrol ei anfodlonrwydd nad oedd hyn wedi ei ddatrys gan ei fod yn fater a oedd wedi ei drafod yn y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ym mis Mawrth 2011 ac y byddai'n rhaid, fel rhan o'r rhaglen waith, ddatrys y mater unwaith ac am byth.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau a'r Harbwr Feistr, fel rhan o'i rhaglen gwaith ddarparu cynllun rheoli'r raciau ac ystyried codi ffioedd fel awgrymwyd uchod er mwyn cael trefn cyn dechrau tymor nesaf.**

7. **ETHOL SYLWEDYDDION**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd David Richardson i fynychu cyfarfodydd y canlynol fel sylwedydd pan yn gyfleus iddo:**

**(a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw**
**(b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog**
**(c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar ddydd Mawrth, 5 Mawrth 2013.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD.**